

Cyfenw
Enw(au) cyntaf

Rhif y Ganolfan

Rhif yr Ymgeisydd
0



TGAU

3300N20-1



A24-3300N20-1

DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2024 – BORE

MATHEMATEG
UNED 2: LLE CANIATEIR CYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer yr arholiad hwn.
Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Gallwch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

Cymerwch π fel 3.14 neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech chi roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn 7, bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.

I'r Arholwr yn Unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	4	
2.	4	
3.	3	
4.	3	
5.	2	
6.	4	
7.	5	
8.	2	
9.	5	
10.	1	
11.	5	
12.	4	
13.	4	
14.	4	
15.	5	
16.	2	
17.	4	
18.	4	
Cyfanswm	65	


3300N201
01



NOV243300N20101

Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

$$\text{Arwynebedd trapesiwm} = \frac{1}{2}(a + b)h$$



1. Cwblhewch y cyfrifiadau isod.

[4]

$$325 + \dots = 1297$$

$$\dots - 694 = 149$$

$$\dots \times 53 = 4505$$

$$1344 \div \dots = 21$$

.....

.....

.....

.....

.....



2. (a) Ysgrifennwch, mewn ffigurau, y rhif pedwar cant mil, un cant ac wyth. [1]

.....

(b) Mae Stef yn defnyddio pob un o'r digidau 4, 5, 9 a 3 i wneud rhif pedwar digid.

Beth yw'r rhif mwyaf mae hi'n gallu ei wneud sy'n lluosrif 5? [1]

--	--	--	--

.....

(c) Ysgrifennwch **holl** ffactorau 20. [2]

.....

.....

3. Mae tair set wahanol o bedwar cerdyn gan Cerys. Mae hi'n dewis cerdyn ar hap o bob set.

Ym mhob rhan, **ysgrifennwch rifau ar y pedwar cerdyn** er mwyn gwneud y gosodiad yn gywir.

(a) Mae'n amhosibl y bydd Cerys yn dewis cerdyn â'r rhif 7 arno. [1]

--	--	--	--

(b) Mae'n debygol y bydd Cerys yn dewis cerdyn â'r rhif 7 arno. [1]

--	--	--	--

(c) Mae siawns deg y bydd Cerys yn dewis rhif llai na 7. [1]

--	--	--	--



4. Yn y grid isod:

- rhaid i bob colofn adio i 150
- rhaid i bob rhes adio i 150.

Cwblhewch y grid.

[3]

83
45	88
.....	93

.....

.....

.....

.....

.....

.....

5. Mae Sophie yn dweud,

“Mae 5 munud 8 eiliad yn ddwbl 2 funud 54 eiliad.”

Ydy Sophie yn gywir?

YDY

NAC YDY

Rhaid i chi ddangos gwaith cyfrifo i gefnogi eich ateb.

[2]

.....

.....

.....

.....

.....



6. Cwblhewch y tabl isod fel bod pob rhes yn dangos ffracsiwn, degolyn a chanran cywerth (*equivalent*).
Mae'r rhes gyntaf wedi cael ei chwblhau i chi.

[4]

Ffracsiwn	Degolyn	Canran
$\frac{1}{4}$	0.25	25%
$\frac{9}{10}$ %
$\frac{.....}{20}$	15%

7. Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.

Mae Lewis yn dewis pedwar rhif.

Mae'r rhif mwyaf yn $\frac{1}{3}$ o 99.

Amrediad ei rifau yw 6.

Mae modd rhifau Lewis yn **eilrif**.

Ysgrifennwch bedwar rhif gallai Lewis fod wedi eu dewis.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[3 + 2 TCY]



8. Defnyddiwch y fformiwla $T = 4A + 8B$ i ddarganfod gwerth T pan mae $A = 45$ a $B = 19$. [2]

.....

.....

.....

9. (a) Mae Tomos eisiau darganfod canolrif y rhifau isod.

7 1 20 14 11

Mae'n ysgrifennu'r ateb 20.

- Esboniwch** pam mae ateb Tomos yn anghywir. [1]

.....

.....

.....

- (b) Mae Ted yn ysgrifennu pump rhif:

59 89 77 31 83

- (i) Cyfrifwch beth yw cymedr rhifau Ted. [3]

.....

.....

.....

.....

- (ii) Mae 3 yn cael ei dynnu o bob rhif yn rhestr Ted.
Beth yw cymedr y rhifau yn ei restr newydd? [1]

.....

.....



10. Mae rhywun yn gofyn i Abby sawl chwarter sydd mewn 8.

Mae'n ysgrifennu $8 \div 4 = 2$.

Esboniwch pam mae dull Abby yn anghywir.

[1]


.....

.....

.....

11. (a) Cyfrifwch beth yw maint ongl x .

[2]



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

.....

.....

.....

.....


.....

$$x = \text{.....}^\circ$$



- (b) Pedrochr yw $PQRS$.
Mae QRT yn llinell syth.
Cyfrifwch beth yw maint ongl y .

[3]



Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa

.....

.....

.....

.....

.....

$$y = \text{.....}^\circ$$



13. (a) Cyfrifwch y canlynol.

$$\frac{17}{50} \text{ o } 24.5 + 78\% \text{ o } 103.5$$

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

(b) Mynegwch £19.44 fel canran o £36.

[2]

.....

.....


.....

.....

.....



14. Mae gan Megan y 7 cerdyn chwarae isod.



Mae hi'n troi'r cardiau hyn ben i waered (*face down*).
Yna, mae Megan yn dewis cerdyn ar hap ac yn cofnodi'r rhif.

- (a) Beth yw'r tebygolrwydd bod Megan yn cofnodi'r rhif 5?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

$\frac{5}{7}$ $\frac{1}{7}$ 1 5 $\frac{7}{5}$

- (b) (i) Beth yw'r tebygolrwydd bod Megan yn cofnodi rhif sgwâr?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

$\frac{2}{5}$ $\frac{1}{7}$ $\frac{2}{7}$ $\frac{4}{7}$ $\frac{4}{5}$

- (ii) Mae Megan yn dewis cerdyn ar hap 91 o weithiau.
Faint o weithiau byddech chi'n disgwyl i Megan gofnodi rhif sgwâr?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[2]



15. Datrysych bob un o'r hafaliadau canlynol.

(a) $3y - 5 = 19$

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

(b) $8p + 5 = 3p - 25$

[3]

.....

.....

.....

.....

.....



TUDALEN WAG


PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON

TROWCH Y DUDALEN.




17. (a) Cylchdrowch y triongl drwy 90° yn glocwedd, o amgylch y tarddbwynt.

[2]



(b) Adlewyrchwch y triongl yn y llinell $x = -2$.


[2]



18. Dangoswch y wybodaeth ganlynol yn y diagram Venn isod.

[4]

- Set Gynhwysol (*Universal Set*) $\mathcal{E} = \{\text{Cyfanrifau rhwng 1 a 7 yn gynhwysol (inclusive)}\}$
- Set A = {eilrifau}
- Set B = {ffactorau 6}
- Set C = {rhifau cysefin}



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

DIWEDD Y PAPUR



TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON

